

ARCHWILIO EICH ARCHIF 2018

PECYN CYMORTH YMGYRCH





BETH YW ARCHWILIO EICH ARCHIF?

Mae Archwilio eich Archif yn ddathliad wythnos o hyd o bopeth yn ymwneud ag archifau! Ei nod yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o archifau, a pha wasanaethau maen nhw'n eu cynnig.

Mae'n ymgyrch dan arweiniad y Gymdeithas Archifau a Chofnodion (Y DU ac Iwerddon), ond yng Nghymru mae'n cael ei arwain gan Archifau a Chofnodion Cymru (ARCW) a Llywodraeth Cymru. Mae Four Cymru yn gweithio gyda ARCW a Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r wythnos eleni.

PRYD MAE'N CAEL EI GYNNAL?

Cynhelir wythnos Archwilio Eich Archif eleni rhwng
DYDD SADWRN 17 TACHWEDD A DYDD SUL 25 TACHWEDD.

Yng Nghymru, bydd yr wythnos yn cael lansio ddydd Gwener 16 Tachwedd yng Ngwasanaeth Archifau Gwynedd



NODAU, AMCANION A NEGESEUON

AMCANION ALLWEDDOL WYTHNOS ARCHWILIO EICH ARCHIF

- I godi proffil archifau yng Nghymru i ymwelwyr, rhanddeiliaid a'r cyfryngau
- I gynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n addas ar gyfer oedrannau / diddordebau gwahanol
- I ddangos bod archifau yn fannau gwerthfawr a defnyddiol i ymweld â nhw i bawb – nid ar gyfer academyddion yn unig
- I dynnu sylw at yr effeithiau cadarnhaol mae archifau yn eu gwneud i ddinasyddion Cymru
- I gynyddu ymgysylltu gan y cyfryngau ac ymgysylltu digidol (lleol a chenedlaethol)
- I feithrin sgiliau marchnata a hyder yn y sector

AMCANION ALLWEDDOL

- I gynyddu nifer yr ymwelwyr i archifau ledled Cymru
- I gynyddu nifer y dilynwyr ac ymgysylltiad ar sianeli cyfryngau cymdeithasol archifau
- I gynyddu traffig i wefan archifau.cymru

NEGESEUON ALLWEDDOL

- Gweithgareddau a digwyddiadau diddorol a chyffrous ar gael i'r teulu cyfan
- Mae archifau a chasgliadau yn atgyfnerthu ein hunaniaeth gan ein helpu i ddeall lle rydym yn byw a sut y datblygodd ein cymuned
- Mae archifau yn grymuso pobl drwy ddysgu, cyfranogiad ac ysbrydoliaeth – maen nhw ar gyfer pawb, nid ychydig o bobl yn unig



MANTEISIO I'R EITHAF AR EICH GWEITHGARWCH ARCHWILIO

Y WASG

Bydd ymgyrch rhagweithiol yn y wasg genedlaethol dan arweiniad Four Cymru yn cael ei hybu gan luniau a siaradwyr yn cynrychioli'r sector archifau yng Nghymru.

Bydd templed o ddatganiad dwyieithog i'r wasg ar gael ar gyfer archifau i ychwanegu gwybodaeth leol a'i gyhoeddi i'w cysylltiadau lleol yn y wasg.

FFOTOGRAFFIAETH A FIDEO

Mae cael delweddau cryf, o ansawdd uchel (300dpi neu uwch) o'ch digwyddiad Archwilio yn ffordd wych o sicrhau sylw mewn papurau newydd lleol ac ar-lein. Mae fideos byr (10 eiliad yn unig hyd yn oed) hefyd yn wych i'w rhannu ar gyfryngau cymdeithasol, felly os oes gennych chi ffôn clyfar pam na wnewch chi dynnu lluniau neu fideo o'ch gweithgaredd?

Mae angen i bawb sydd yn y lluniau neu'r fideo lenwi ffurflen caniatâd ffotograffiaeth. Os nad oes gennych ffurflenni caniatâd ar gyfer eich archif gallwch ofyn am hyn o archifau@four.cymru.

GWAITH CELF A DEUNYDDIAU HYRWYDDO

Mae cyfres o waith celf dwyieithog ar gael i'ch helpu chi i hyrwyddo Archwilio – gan gynnwys logos a baneri cyfryngau cymdeithasol. Mae map ffeithlun yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd hwn hefyd yn cael ei e-bostio at archifau i'w rannu.

Mae rhai deunyddiau hyrwyddo gan gynnwys pensiliau, llyfr nodiadau, nodiadau post-it, chwyddwydr a chylch allweddi â fflashlamp hefyd ar gael.



Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Dylech hyrwyddo eich holl weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol, ac ymuno yn y sgwrs ar-lein i helpu i gysylltu â chynulleidfaoedd presennol a newydd. Cofiwch rannu delweddau neu fideos byr lle y bo modd gan fod hyn yn dal sylw ac yn gwneud i'ch cynnwys sefyll allan.

CYFRIFON ALLWEDDOL A HASHNODAU I'W DEFNYDDIO

Twitter: [@ArchivesWales](#) / [@ArchifauCymru](#)

Facebook: [facebook.com/ArchivesWales](#)

Hashnod yr ymgyrch: [#ExploreArchives](#) / [#ArchwilioArchifau](#)

THEMÂU DYDDIOL

Hefyd bydd hashnodau dyddiol y gallwch eu defnyddio i dynnu sylw at eitemau penodol yn eich casgliad sy'n gweddu i'r thema, ac a allai fod o ddiddordeb i gynulleidfaoedd. Y rhain yw:

1. Dydd Sadwrn 17 Tach: [#MusicArchives](#) [#ArchifauCerddorol](#)
2. Dydd Sul 18 Tach: [#ReligiousArchives](#) [#ArchifauCrefyddol](#)
3. Dydd Llun 19 Tach: [#ArchiveAnniversaries](#) [#PenblwyddiArchif](#)
4. Dydd Mawrth 20 Tach: [#HairyArchives](#) [#ArchifauBlewog](#)
5. Dydd Mercher 21 Tach: [#MaritimeArchives](#) (and [#YearOfTheSea](#)) [#ArchifauArforol](#) (a [#BlwyddynYMor](#))
6. Dydd Iau 22 Tach: [#DiversityArchives](#) [#ArchifauAmrywiaeth](#)
7. Dydd Gwener 23 Tach: [#ArchiveAnimals](#) [#AnifeiliaidArchif](#)
8. Dydd Sadwrn 24 Tach: [#SportingArchives](#) [#ArchifauChwaraeon](#)
9. Dydd Sul 25 Tach: [#InternationalArchives](#) [#ArchifauRhyngwladol](#)

COFRESTRWCH HEDDIW!

Gadewch i ni wybod y byddwch yn cymryd rhan ar y cyfryngau cymdeithasol drwy drydar y canlynol:

**RYDYM YN EDRYCH YMLAEN I GYMRYD
RHAN YN #ARCHWILIOARCHIFAU AR
17 - 25 TACHWEDD - GOBEITHIO EICH
GWELD CHI YNA ARCHWILWYR!**

#ARCHWILIOARCHIFAU
#EXPLOREARCHIVES

